



Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Green  
Cadeirydd  
Comisiwn y Gyfraith  
1<sup>st</sup> Floor Tower  
52 Queen Anne's Gate  
Llundain  
SW1H 9AG

Nicholas.Green@lawcommission.gov.uk

10 Tachwedd 2020

Annwyl Nicholas

## YMATEB MANWL I'R ADRODDIAD AR GYFRAITH CYNLLUNIO YNG NGHYMRU

Ym mis Mai 2019, gwnaethom gyhoeddi ymateb interim i'ch adroddiad ar gyfraith cynllunio yng Nghymru. Roedd yr ymateb yn canolbwyntio ar y casgliadau craidd a nodir yn Rhan 1 o'r Papur Ymgynghori (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017) a'r Adroddiad. Yn benodol, roedd yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i farn Comisiwn y Gyfraith ar yr angen i symleiddio a chydgrynhoi cyfraith gynllunio; yr achos dros god cynllunio; a chwmpas yr ymarfer cydgrynhoi cychwynnol.

Y llythyr hwn a'r tabl sy'n cyd-fynd ag ef yw ymateb manwl Llywodraeth Cymru i'r Adroddiad. Ar ôl inni gwblhau ein hasesiad, mae'n amlwg bod eich tîm wedi ymgymryd â thasg sylweddol a gwaith ystyried manwl wrth gwblhau'r adolygiad cynhwysfawr hwn o gyfraith cynllunio. Mae'r Adroddiad, ei argymhellion a'r ymatebion i'r ymgynghoriad gan randdeiliaid, yn dangos cymhlethdod y gyfraith a'r materion y mae angen eu datrys er mwyn sicrhau bod gan Gymru system gynllunio sy'n addas i'r diben a'i bod yn gallu gwireddu'r weledigaeth a hoffem ar gyfer Cymru yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Trosolwg o'n hymateb

Mae safbwynt Llywodraeth Cymru ar bob un o'r 192 o argymhellion, fel y nodir yn Rhan 2 o'r Adroddiad, i'w weld yn y tabl sydd ynghlwm. Fel y nodwyd yn ymateb interim y Llywodraeth, mae'r argymhellion yn perthyn, yn gyffredinol, i dri chategori:

- mân ddiwygiadau technegol heb fawr ddim newidiadau mewn polisi, os oes unrhyw rai o gwbl, i hwyluso'r broses gydgrynhoi;

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- diwygiadau polisi gyda'r nod o symleiddio'r gyfraith a gweithrediad y system gynllunio ymhellach, sy'n amrywio o fân newidiadau i newidiadau sylweddol mewn effaith polisi;
- newidiadau i is-ddeddfwriaeth a chanllawiau.

Rydym wedi categorioeddio ein hymateb i dri chanlyniad – derbyn, derbyn mewn egwyddor a gwrthod. Lle rydym wedi nodi mai ein safbwynt yw 'derbyn mewn egwyddor', er ein bod yn cytuno ag egwyddor yr argymhelliad yn bennaf, gall fod agweddau y byddwn yn ceisio eu hamrywio er mwyn adlewyrchu safbwynt polisi Llywodraeth Cymru. Gallai hyn gynnwys mynd i'r afael â'r mater a godwyd mewn ffordd wahanol, neu lle rydym o'r farn bod angen ystyried ymhellach sut yn union y caiff yr argymhelliad ei roi ar waith ac mai dim ond yn ystod y broses o ddrafftio'r darpariaethau statudol perthnasol y gellir cyflawni hynny. Mewn rhai achosion, gall fod angen rhagor o ymgynghori.

Mae cyfiawnhad manwl dros safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch pob argymhelliad wedi cael ei gynnwys yn y tabl, gan gynnwys ein sail resymegol lle nad ydynt yn cytuno ag argymhelliad. I grynhoi, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y mwyafrif o'r argymhellion yn yr Adroddiad. Mae ein safbwynt cyffredinol fel a ganlyn:

- Derbyn – 61%
- Derbyn mewn egwyddor – 25%
- Gwrthod – 8%

Hefyd, ar gyfer 14 o'r argymhellion (6%), rydym wedi nodi bod angen tystiolaeth ategol ychwanegol i lywio penderfyniad yn y dyfodol ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau polisi a gynigir. Bydd yr argymhellion hyn, a'r wybodaeth sy'n sail iddynt, gan gynnwys yr ymatebion a gafwyd gan randdeiliaid, yn rhan o sylfaen dystiolaeth mewn perthynas ag adolygiad ehangach o raglenni gwaith yn y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w gweld yn y tabl.

Rydym wedi cyflwyno ein hymateb i bob argymhelliad yn y tabl sydd ynghlwm, ar ôl ystyried y ddogfen ymgynghori, yr adroddiad terfynol a'r sylwadau gan randdeiliaid yn fanwl. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi efallai y bydd gallu Gweinidogion Cymru i fwrw ymlaen â'r argymhellion yn newid yn dilyn gwaith dadansoddi manylach wrth inni baratoi a drafftio'r ddeddfwriaeth. Wrth i'r ddeddfwriaeth gael ei drafftio'n fanwl, gall problemau godi na ellir eu rhagweld ar hyn o bryd. Lle mae'r argymhellion yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol, bydd darpariaethau'r Bil terfynol, yn y pen draw, yn cael eu rheoli gan gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, fel y nodir yn gywir yn eich adroddiad terfynol. Hefyd, wrth gwrs, lle'r Senedd fydd penderfynu'n derfynol a ddylid deddfu'r argymhellion hynny.

### Dull cyflawni

Gan fod y mwyafrif o'r newidiadau deddfwriaethol a argymhellir yn gyfystyr â mân ddiwygiad technegol i hwyluso'r gwaith o gydgrynhoi a symleiddio'r gyfraith, rwy'n rhagweld mai Bil cydgrynhoi cynllunio fydd y prif ddull cyflawni. Byddwch yn ymwybodol bod Pwyllgor Busnes Senedd Cymru yn ystyried y ffurf derfynol ar Reol Sefydlog addas ar gyfer Biliau cydgrynhoi ar hyn o bryd, a hyn fydd yn pennu, yn y pen draw, i ba raddau y gellir gweithredu ar yr argymhellion drwy ymarfer cydgrynhoi. Er hyn, bwriad y Cwnsler Cyffredinol a minnau yw y dylid cyflwyno Bil cydgrynhoi maes o law.

Mae Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn gosod dyletswydd ar Weiniogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol i gyflwyno rhaglen ffurfiol i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Gan mai mater i Lywodraeth tymor nesaf y Senedd fydd cynnwys y rhaglen ffurfiol gyntaf, ni all yr ymateb hwn ymrwmo i gynnwys Bil cydgrynhoi cynllunio yn y rhaglen honno. Fodd bynnag, mae'r Cwnsler Cyffredinol a minnau wedi cynghori swyddogion i barhau â'r gwaith o baratoi

a drafftio'r Bil cydgrynhai ar y sail y bydd yn rhan bwysig o'r rhaglen gyntaf hon i'w chyflwyno i'r Senedd y tymor nesaf.

Byddai angen darparu ar gyfer nifer bach o argymhellion a fyddai'n gyfystyr â diwygiadau polisi mwy sylweddol, yr ydym yn rhagweld y byddant y tu allan i gwmpas ymarfer cydgrynhai, mewn Bil diwygio'r gyfraith (ar wahân). Prosiect tymor hwy yw hwn, a chaiff ei gyflwyno pan fydd angen newidiadau sylweddol pellach i'r system gynllunio a gellir ei gyflawni fel rhan o becyn diwygio polisiâu. At hynny, bydd yr argymhellion hynny a dderbynnir gennym, ond sy'n gofyn am newidiadau i is-ddeddfwriaeth neu ddrafftio is-ddeddfwriaeth newydd, yn dilyn fel rhan o raglen waith yn y dyfodol. Ein prif ffocws yw rhoi'r Bil cydgrynhai cynllunio ar waith er mwyn sicrhau buddiannau sylweddol i bob rhanddeiliad drwy symleiddio a chydgrynhau'r gyfraith, sef rhywbeth y mae angen ei wneud ar frys, fel y mae eich adolygiad yn ei bwysleisio.

Mae'r gwaith cymhleth a sylweddol rydych wedi ei wneud wedi darparu sylfaen dystiolaeth fanwl, gadarn ac annibynnol i ategu'r broses o gydgrynhau a symleiddio deddfwriaeth gynllunio. Rwy'n falch eich bod yn parhau i weithio gyda ni wrth i'r Bil cydgrynhai gael ei baratoi. Unwaith eto, ar ran Llywodraeth Cymru, hoffwn ddiolch ichi am eich gwaith ac am eich cydweithrediad, nid yn unig â'm swyddogion ond â'r holl randdeiliaid yng Nghymru sydd wedi cyfrannu at lwyddiant yr adolygiad hwn o gyfraith cynllunio yng Nghymru.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**  
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government

cc. Jeremy Miles AS, Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd